**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for North Wales and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1422
Ein cyf/Our ref LW/00562/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

14 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth yn darparu manylion ynghylch Deiseb P-06-1422 Diddymu'r terfyn o 20mya ar TRA4076 yn Johnston Sir Benfro.

Prif amcan y polisi diofyn o 20mya yw arbed bywydau a lleihau'r nifer sy'n cael eu hanafu ar y ffyrdd. Rwyf am adeiladu ar y consensws bod 20mya yn iawn o amgylch ysgolion, ysbytai ac mewn ardaloedd preswyl adeiledig.

Fodd bynnag, ni allwn ddianc rhag y ffaith bod 20mya wedi polareiddio'r bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Yn erbyn y cefndir hwnnw, ro'n i'n teimlo y dylem gymryd cam yn ôl a gwrando ar farn pawb a fu'n chwarae rhan.

Er mwyn cefnogi'r Rhaglen Wrando Genedlaethol rwyf wedi'i chychwyn, rydym wedi cyhoeddi tudalen we i helpu i gyfeirio pobl at yr awdurdod priffyrdd perthnasol pan fyddant am roi adborth ar derfynau cyflymder penodol.

O dan arweiniad y cyfarfodydd rhanbarthol rydym yn eu rhoi ar waith gyda chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru, a chyda chymorth Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, rydym am greu fframwaith ar y cyd sy'n cefnogi'r awdurdodau priffyrdd i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer ffyrdd lleol – yn enwedig pan fydd y penderfyniadau hynny'n anodd iawn.

Bydd y fframwaith hwnnw'n cael ei gyhoeddi cyn toriad yr haf. Ar ôl toriad yr haf, byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau priffyrdd yn y cyfnod gweithredol o asesu ffyrdd, gwneud gorchmynion rheoleiddio traffig ac yn olaf wrth roi newidiadau ar waith ar lawr gwlad. Rydym yn cydnabod na fyddwn o bosibl yn gweld unrhyw newidiadau ar lawr gwlad am sawl mis ar ôl mis Medi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yna bydd fy swyddogion yn canolbwyntio ar flaenoriaethu canllawiau ar gyfer terfynau cyflymder eraill lle mae pobl yn byw.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys tudalen Cwestiynau Cyffredin wedi'i diweddaru, ar gael yn:
Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya: cwestiynau cyffredin | LLYW.CYMRU
Terfynau cyflymder 20mya | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport